Sut i Wneud Seiloffon o Wydrau

Bydd angen…

- Rhywun i'ch helpu – pwysig iawn!
- Rhai gwydrau yfed neu fygiau. Ceisiwch ddod o hyd i sawl maint gwahanol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn am help i ddewis y gwydrau.
- Ychydig o lwyau te.
- Dewisol: dŵr!

Cam Un:

Tarwch ochr pob un o'ch gwydrau â'ch llwyau te a gwrando ar ba wydrau sy'n creu sain uwch neu is. Gyda chymorth eich helpwr, ceisiwch roi'r gwydrau mewn rhes yn ôl trefn y sain isaf ar un ochr i'r sain uchaf ar yr ochr arall. Fe wnes i ddarganfod nad yw ***bob amser*** y gwydr mwyaf sy'n gwneud y sain isaf ...

Cam Dau:

Rhowch gynnig ar chwarae rhai gemau gyda'ch seiloffon gwydr: gofynnwch i'ch helpwr gau ei lygaid wrth i chi daro ar un o'r gwydrau ac wedyn gofynnwch iddo ddyfalu pa un gwnaethoch chi ei chwarae. Os yw hyn yn rhy hawdd, rhowch gynnig ar chwarae 2 neu 3 gwydr un ar ôl y llall iddo ddyfalu.

Gallwch hefyd newid a yw'r gwydr yn creu sain isel neu uchel trwy arllwys dŵr ynddo. Ychwanegwch ychydig bach ar y tro i weld sut mae'n newid y sain. Ceisiwch greu eich alawon eich hun neu gyda rhywun arall a recordiwch eich hun yn eu chwarae! Rhowch gynnig ar chwarae dau wydr ar y tro hefyd i weld pa barau sy'n gwneud sain neis iawn gyda'i gilydd.

Am ryw ysbrydoliaeth ychwanegol, dyma Fin Draper yn chwarae ar wydrau yfed gydag un llaw, allweddell gyda'i law arall, a ffon guro drwm wedi'i thapio i'w droed:

https://youtu.be/s-cyQj6aRrk